Chwistrell Ffliw

Mae yna animeiddiad byr wedi'i baratoi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru y gallwch ei rannu ynghyd â'r neges neu ei ddangos i blant cyn yr ymweliad gan ein nyrsys ysgol:
• Beat Flu: ffilm i blant yn esbonio'r chwistrell (Saesneg gydag Is-deitlau) - https://www.youtube.com/watch?v=J_KU5s1So9o
• Curwch Ffliw: ffilm i blant (Cymraeg gydag is-deitlau) - https://www.youtube.com/watch?v=RdIKa2K0ecw

Diolch yn fawr, Alexandra Williams-Fry, Uwch Swyddog Cyfathrebu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Bydd Tîm Nyrsio Ysgol Hywel Dda yn ymweld â'n hysgol ar Hydref 23ain i ddarparu chwistrell ffliw trwyn ar gyfer plant 4-11 oed. A allai pob rhiant lenwi'r ffurflen i roi gwybod i'r tîm a fydd eich plentyn yn derbyn y chwistrell trwynol, ei lofnodi a'i ddychwelyd i'r ysgol cyn gynted â phosibl

Mae amddiffyn iechyd eich plentyn ac iechyd y rhai o'u cwmpas yn bwysicach nag erioed ac mae plant sy'n cael eu brechlyn ffliw yn rhan allweddol o hyn.

Mae diogelwch eich plentyn o'r pwys mwyaf. Bydd nyrsys yr ysgol yn rhoi y chwistrell ffliw trwyn yn swigen eich plentyn a byddant yn gwisgo offer amddiffynnol personol llawn (PPE) gyda ffedogau a menig wedi'u newid rhwng pob plentyn.

Mae'r brechlyn ffliw chwistrell trwynol yn ddiogel iawn i blant ac mae'n un o'r ffyrdd gorau o amddiffyn eich plentyn rhag dal neu ledaenu ffliw. Am ragor o wybodaeth darllenwch y daflen wybodaeth chwistrellu trwynol i blant sydd ar gael yma https://phw.nhs.wales/services-and-teams/beat-flu/resources/beat-flu-leaflets/bf-children-dl-lealflet-bilingual -pdf /

DS: Os oedd eich plentyn yn 2 neu 3 oed ar 31 Awst 2020, bydd yn derbyn ei chwistrell trwyn ffliw gan eich meddygfa ac nid gan dîm nyrsio'r ysgol yn yr ysgol.